Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Eglwyswrw**
**Hen Ysgol Eglwyswrw**
**Crymych**
**SA41 3SN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/08/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Eglwyswrw wedi ei sefydlu ers 1973 ac fe gaiff ei gynnal yn adeilad yr hen ysgol gynradd sydd erbyn hyn yn ganolfan i'r gymuned leol.  Mae'n cael ei rhedeg gan bwyllgor rheoli gwirfoddol ac yn aelod cofrestredig o Fudiad Meithrin.

Mae'r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr a hanner ar bedwar bore'r wythnos ar gyfer plant rhwng dwy a hanner a phedair blwydd oed.  Ar adeg yr arolygiad, roedd 15 o blant ar y gofrestr, 14 ohonynt wedi eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefndir i'r sesiynau.  Nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad yn ystod yr arolygiad.

Daw'r plant o ardal Eglwyswrw ac ardaloedd cyfagos ac mae mwyafrif y plant o gartrefi lle siaredir Cymraeg.  Adeg yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn o gefndir lleiafrifol ethnig yn mynychu'r lleoliad, nac ychwaith yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi 6 aelod o staff, sef yr arweinydd,1 arweinydd cynorthwyol, 1 cynorthwyydd sydd yn gweithio yn y lleoliad am bedwar bore'r wythnos a 3 chynorthwyydd rhan amser.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Estyn ym mis Hydref 2009 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ebrill 2015.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae medrau allweddol mwyafrif y plant yn datblygu'n dda ar draws yr holl feysydd dysgu
- mae'r holl ymarferwyr yn fodelau iaith da iawn sydd yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau llythrennedd mwyafrif y plant
- mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn gwrando'n ofalus ar oedolion
- mae naws gartrefol a hapus i'r lleoliad ac mae perthynas dda iawn rhwng ymarferwyr a'r plant
- mae trawstoriad da o ymwelwyr yn ymweld â'r lleoliad yn gyson sydd yn cyfoethogi dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas
- mae systemau dyddiol cadarn yn eu lle sydd yn creu awyrgylch diogel a threfnus i'r plant

### Rhagolygon gwella

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r ymarferwyr i gyd yn cydweithio'n effeithiol iawn, ac mae ymdeimlad o dîm yn gryf
- mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn adnabod cryfderau ac anghenion gwella'r lleoliad yn dda iawn
- mae'r ymarferwyr yn arfarnu safonau plant a'r ddarpariaeth yn gyson, ac yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio gwelliannau
- mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio cwricwlwm eang a chytbwys yn unol â fframwaith y Cyfnod Sylfaen
- mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau llwyddiannus y mae'n eu defnyddio'n dda i wella deilliannau plant
- mae brwdfrydedd ac ymrwymiad y staff i greu amgylchedd dysgu pwrpasol yn rhoi profiadau diddorol i'r plant
- mae cysylltiadau da rhwng y lleoliad â'r ysgol gynradd leol sy'n gymorth i baratoi'r plant ar gyfer trosglwyddo

## Argymhellion

A1 Cynnig digon o gyfleoedd i'r plant ddewis ddefnyddio'r ardal allanol yn annibynnol

A2 Defnyddio proffil y Cyfnod Sylfaen i asesu cyflawniadau pob unigolyn er mwyn gosod her briodol ar gyfer plant o bob gallu

A3 Sicrhau bod y broses hunanarfarnu yn adnabod blaenoriaethau er mwyn gosod amserlen glir ar gyfer gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn ac yn galw dysgu blaenorol i gof yn ddeallus. Maent yn cymhwyso eu medrau allweddol mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn effeithiol ar draws pob maes dysgu.

Mae medrau llythrennedd mwyafrif y plant yn gadarn. Mae llawer ohonynt yn siarad yn glir ac yn hyderus gydag oedolion cyfarwydd, gan ddefnyddio brawddegau llawn yn gyson. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrando'n ofalus ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn gywir. Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau a'u cynnwys, ac yn eu trin a thrafod fel darllenydd yn yr ardal ddarllen. Mae'r mwyafrif yn ymateb yn frwdfrydig i storïau gan ateb cwestiynau'n briodol am gymeriadau a digwyddiadau gwahanol. Mae bron pob un yn creu marciau yn effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau megis paent, eli eillio a phensiliau ar draws yr ardaloedd. Mae tua hanner y plant yn dechrau ffurfio llythrennau wrth ysgrifennu i bwrpas, er enghraifft wrth ysgrifennu enw ar amlenni yn y swyddfa bost ac wrth ysgrifennu llythyr.

Mae llawer o'r plant yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws yr ardaloedd. Gall y rhan fwyaf o blant gyfri i ddeg yn hyderus ac mae bron pob un yn ymuno wrth ganu rhigymau rhif. Mae llawer yn deall diben arian wrth iddynt dalu am eu ffrwyth a thrin arian yn y swyddfa bost. Mae tua hanner yn adnabod ac enwi siapau 2D syml ac yn dechrau adnabod siapau 3D. Mae'r mwyafrif yn defnyddio iaith fathemategol gywir wrth drafod pwysau parseli ac wrth lenwi a gwacáu cynhwysyddion o wahanol faint yn y tywod.

Mae llawer yn dyfalbarhau yn dda yn ystod gweithgareddau dewis rhydd ac yn datrys problemau yn annibynnol, er enghraifft wrth ddarganfod pa bibell i arllwys y dŵr er mwyn iddo gyrraedd bwced lliw arbennig. Mae tua hanner y plant yn ddysgwyr ymholgar ac yn barod i fentro gwneud camgymeriadau.

Mae gan mwyafrif y plant fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da ac maent yn defnyddio'r til a'r cyfrifiannell yn bwrpasol yn y gornel chwarae rôl. Gall y mwyafrif drin llechen gyfrifiadurol yn hyderus ac maent yn defnyddio camera digidol yn llwyddiannus i dynnu lluniau.

**Lles: Da**

Mae bron pob un plentyn yn hapus yn dod i'r lleoliad ac yn gweithio'n annibynnol wrth ymgymryd â thasgau cyfarwydd. Mae'r mwyafrif yn frwdfrydig i ddysgu medrau newydd ac yn dyfalbarhau â thasgau amrywiol. Mae mwyafrif y plant yn trafod eu gwaith yn frwdfrydig gyda'i gilydd ynghyd ag oedolion cyfarwydd ac yn cymryd rôl weithredol yn eu dysgu. Mae'r plant yn hyderus wrth ymgymryd â rôl helpwr heddiw ac maent yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol wrth osod a chlirio'r byrddau adeg byrbryd ac wrth adrodd rhagolygon y tywydd.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn ymwybodol o anghenion eraill ac yn dangos gofal a pharch tuag atynt. Mae'r mwyafrif yn cydweithio'n dda, er enghraifft wrth helpu llenwi a gwagio cynwysyddion yn y tywod ac yn cyd-chwarae yn synhwyrol wrth chwarae rôl yn y swyddfa bost. Maent yn aros tro wrth chwarae gêm ac wrth aros i ddefnyddio'r llithren. Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif yn rhannu adnoddau ynghyd â helpu eraill, er enghraifft wrth ddangos sut i ddefnyddio'r camera digidol.

Mae mwyafrif y plant yn aros eu tro yn amyneddgar mewn rhesi i olchi dwylo a gall bron pob plentyn olchi ei ddwylo yn ofalus cyn amser byrbryd. Mae'r mwyafrif yn ymwybodol bod ffrwythau yn iachus iddynt ac maent yn gwneud dewisiadau yn annibynnol wrth ofyn am y ffrwythau yr hoffent eu bwyta. Mae'r rhan fwyaf yn dweud diolch wrth dderbyn eu byrbryd ac mae bron pawb yn eistedd yn briodol o amgylch y bwrdd i fwyta.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio cwricwlwm eang a chytbwys yn unol â fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Maent yn rhoi profiadau diddorol i'r plant arbrofi a darganfod ac, o ganlyniad, mae mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd da ar draws y medrau. Mae cynllunio wythnosol yn nodi cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae mwyafrif y plant yn cyrraedd deilliannau cadarn.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i sicrhau bod y gweithgareddau yn yr ardal tu fewn yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i blant wneud dewisiadau a datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r plant ddewis ddefnyddio'r ardal allanol yn annibynnol. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddarllen eu henwau wrth gofrestru ac mae rôl yr helpwr heddiw o adrodd y tywydd yn datblygu hyder y plant i siarad o flaen cynulleidfa. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dyddiol i ddatblygu medrau gwrando a darllen, er enghraifft yn ystod sesiwn stori. Mae'r ddarpariaeth o fewn y gornel chwarae rôl hefyd yn rhoi profiadau gwerthfawr i'r plant ddatblygu eu medrau llafar, ysgrifennu a rhifedd.

Mae trawstoriad da o ymwelwyr yn ymweld â'r lleoliad yn gyson, er enghraifft nyrs, heddwas, a'r postmon, wrth i'r plant ddysgu am bobl sy'n eu helpu. Mae hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. Mae ymarferwyr hefyd yn trefnu nifer o ymweliadau i'r gymuned sydd yn ehangu gwybodaeth y plant o'r byd gwaith.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd amrywiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth y plant o'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. Mae cymeriadau amlwg fel Cyw, Sali Mali a Smot i'w gweld yn amlwg yn yr ardal fewnol ac allanol ac mae'r plant yn mynd â'r cymeriad Dewin adref bob penwythnos sydd yn cyfoethogi'r cyswllt Cymreig rhwng y lleoliad â'r cartref. Mae'r lleoliad yn cynllunio cyfleoedd hwyliog i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen, yr Urdd, a Dydd Gŵyl Dewi trwy amrywiaeth o weithgareddau diddorol, er enghraifft coginio pice ar y maen ac addurno bisgedi siâp calon.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm ac maent yn darparu cyfleoedd eang i'r plant ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Maent yn cydweithio'n agos ac yn defnyddio cryfderau ei gilydd yn effeithiol er mwyn rhoi'r ddarpariaeth orau i'r plant.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu arferion dyddiol cadarn ac, o ganlyniad, mae mwyafrif y plant yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae gan yr ymarferwyr natur gyfeillgar a mamol ac, o ganlyniad, mae'r plant yn ymgartrefu'n syth ac yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn fodelau iaith da iawn, ac o ganlyniad, mae safonau llafar a geirfa'r plant yn cael eu cyfoethogi. Mae ymarferwyr yn holi plant yn effeithiol ac yn adnabod anghenion unigolion yn dda. Maent yn cyd-chwarae gyda'r plant yn rheolaidd ac yn ymyrryd ar adegau pwrpasol er mwyn herio a symud y dysgu yn ei flaen.

Mae ymarferwyr yn canmol y plant ar lafar am eu hymdrechion yn gyson. Mae hyn yn rhoi hyder a sicrwydd i'r plant roi cynnig ar brofiadau newydd heb boeni am wneud camgymeriad. Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ar y plant yn ddyddiol ac yn siarad gyda'i gilydd yn gyson am gyflawniadau unigolion. Maent yn defnyddio asesiadau'n briodol ar gyfer bwydo'r cynllunio. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r asesiadau yn ddigon effeithiol er mwyn gosod her briodol ar gyfer plant o bob gallu. Yn ddiweddar, maent wedi treialu proffil y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau trosolwg manwl o gyrhaeddiad a chynnydd pob plentyn ar draws y meysydd dysgu. Mae'r ymarferwyr yn trefnu sgyrsiau anffurfiol gyda'r rhieni, yn ogystal ag adroddiad blynyddol a llyfr llawn lluniau o waith y plant yn y gwahanol ardaloedd. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth ddiddorol a chyflawn am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo hylendid, bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn bwyta ac mae amser byrbryd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu medrau cymdeithasol pwysig fel eistedd wrth y bwrdd a sgwrsio gyda ffrindiau. Mae'r lleoliad yn darparu gweithgareddau dyddiol gwerthfawr yn yr ardal tu fewn a thu allan, er enghraifft pedalu beiciau a defnyddio cwrs rhwystr. Mae hyn yn datblygu ffitrwydd y plant ac yn cyfrannu at eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw'n heini.

Mae profiadau dysgu'n hyrwyddo datblygiad personol ac emosiynol plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gan y lleoliad reolau pendant er mwyn meithrin ymddygiad da ac mae'r rhain yn weledol o amgylch y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn atgoffa'r plant yn ddyddiol ohonynt ac yn pwysleisio'n gyson yr angen i bawb fod yn garedig i'w gilydd. Mae cyfleoedd rheolaidd i blant wneud dewisiadau am yr hyn yr hoffent ei wneud, ynghyd â gofyn am gymorth pan fo'r angen. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad personol a chymdeithasol y plant. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ei werthoedd o ofal, parch a chariad yn effeithiol. Mae pob un o'r ymarferwyr yn ofalgar o'r plant ac yn eu hannog i ddangos parch tuag at eraill yn gyson.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys sicrhau cymorth gan wasanaethau ac asiantaethau lleol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac mae clo ar y giât allanol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod pob plentyn yn cael eu derbyn yn ddiogel i'r lleoliad yn y bore ac yn cael eu trosglwyddo'n syth i'w rhieni ar ddiwedd y sesiwn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau amrywiol. Mae ymarferwyr yn rhoi pwyslais cadarn ar rannu gwerthoedd fel gofal, parch a chariad gyda'u holl randdeiliaid ac mae hyn yn arwain at awyrgylch cartrefol a hapus. Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais clir ar ddangos parch tuag at ddiwylliannau amrywiol ac maent yn hyrwyddo hyn yn llwyddiannus trwy ddathlu diwrnodau Saint Padrig a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn flynyddol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o le ac mae'r ardal fewnol ac allanol yn hyrwyddo ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r ardaloedd hyn yn ddeniadol ac yn cynnwys adnoddau pwrpasol i gefnogi'r addysgu. Mae'r arddangosfeydd yn dathlu gwaith y plant ar draws y medrau ac yn cefnogi'r addysgu. Mae'r holl adnoddau o safon uchel ac mae unrhyw adnoddau sydd wedi eu paratoi yn atgyfnerthu'r dysgu yn bwrpasol, er enghraifft matiau toes rhif a gêm loto pobl sy'n ein helpu.

Mae hysbysfwrdd yn y fynedfa yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i rieni am ddigwyddiadau. Mae'n fodd effeithiol o rannu gwybodaeth ddefnyddiol a dathlu llwyddiannau'r lleoliad gydag eraill. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r ardal leol er mwyn atgyfnerthu profiadau'r plant.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd a'r ymarferwyr eraill weledigaeth glir ynglŷn â chyfeiriad strategol a gweledigaeth y lleoliad. Mae'r 'Datganiad o Werthoedd' sy'n cael ei rannu gyda phawb sy'n ymwneud â'r lleoliad yn atgyfnerthu'r cyfeiriad hwnnw'n effeithiol. Mae'n seiliedig ar greu awyrgylch diogel a gofalgar ar gyfer plant, fel eu bod yn datblygu i'w llawn botensial, yn unigolion hyderus sy'n perthyn i'w cymdeithas leol. Mae'r ethos Cymreig yn gadarn ac yn rhan naturiol ac annatod o bwrpasau'r lleoliad.

Mae'r ymarferwyr i gyd yn cydweithio'n effeithiol iawn, ac yn rhannu cyfrifoldebau yn llwyddiannus. Mae'r ymdeimlad o dîm yn gryf. O ganlyniad, mae rhediad y lleoliad o ddydd i ddydd yn llyfn ac yn gyson, ac yn sicrhau bod y plant yn dangos cynnydd ar draws y meysydd dysgu a'u medrau allweddol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cefnogi gwaith y lleoliad yn dda, ac yn trafod anghenion y lleoliad mewn cyfarfodydd rheolaidd. Mae'n effeithiol wrth sicrhau cefnogaeth ymarferol ac ariannol i sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a rhoi ffocws amlwg ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ar draws yr holl feysydd dysgu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn adnabod cryfderau ac anghenion gwella'r lleoliad yn dda iawn. Maent yn arfarnu safonau plant a'r ddarpariaeth yn gyson, ac yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio gwelliannau.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn fanwl iawn, ac yn ymwneud ag amrywiaeth eang o agweddau. Ar y cyfan, mae'r cynnwys yn arfarnol ac yn adnabod llawer o gryfderau'r lleoliad yn ogystal â meysydd sydd angen eu gwella yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen bob tro'n blaenoriaethu'n ddigon clir y meysydd sydd angen eu gwella.

Mae cynllun datblygu'r lleoliad yn ddogfen ymarferol sy'n canolbwyntio'n dda ar gyfoethogi'r ddarpariaeth ac ar godi safonau plant. Mae'n gosod targedau priodol ar gyfer gwelliant ac yn nodi meini prawf clir er mwyn gwerthuso effaith y gweithredu. Mae'r pwyllgor rheoli yn cefnogi'r cynllun gwella yn effeithiol, er enghraifft trwy sicrhau cyllid i wella'r ardal allanol. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen yn nodi cyfleoedd ar gyfer gwerthuso'r gwelliannau yn ddigon clir.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ymarferwyr y lleoliad yn cydweithio'n dda gyda nifer o bartneriaethau. Mae cysylltiadau clir wedi eu sefydlu rhwng y lleoliad a'r rhieni trwy ddefnydd effeithiol o gylchlythyron cyson. O ganlyniad, mae gan rieni wybodaeth eglur am waith y lleoliad a chynnydd eu plant.

Mae cysylltiadau da wedi eu sefydlu rhwng y lleoliad â'r ysgol gynradd leol sy'n gymorth i baratoi'r plant ar gyfer trosglwyddo. Er enghraifft, mae dosbarth derbyn yr ysgol gynradd a phlant y lleoliad yn mynd gyda'i gilydd ar ymweliadau lleol yn rheolaidd, gan ymuno â phlant yr ysgol am ginio ar ôl dychwelyd. Mae'r trefniant llwyddiannus hwn yn sicrhau bod plant y lleoliad yn dod i adnabod yr ysgol a'r athrawon yn gynnar.

Mae'r lleoliad yn manteisio ar gefnogaeth yr awdurdod lleol trwy gyfrwng sesiynau hyfforddiant a chefnogaeth ymgynghorol. Yn yr un modd, maent yn elwa'n dda o weithgareddau, cymorth ariannol a hyfforddiant gan y Mudiad Meithrin.

Mae gan Gylch Meithrin Eglwyswrw berthynas amlwg a chadarn gyda'i chymuned. Mae gweithgareddau'r lleoliad yn denu cefnogaeth nifer dda o drigolion yr ardal, gan gynnwys digwyddiadau cymdeithasol llwyddiannus i godi arian.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o staff cymwys sy'n cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae'r arweinydd wedi dyrannu cyfrifoldebau'n glir ac, o ganlyniad, mae rhediad y lleoliad o ddydd i ddydd yn llyfn. Mae pob aelod o staff yn manteisio'n briodol ar hyfforddiant mewn meysydd gofal, datblygu medrau allweddol, a datblygu eu dealltwriaeth o'r Cyfnod Sylfaen.

Mae trefn effeithiol, sy'n cynnwys cadeirydd y pwyllgor rheoli, yn ei lle ar gyfer rheoli perfformiad y staff.

Mae gan y lleoliad ystod eang o adnoddau o safon uchel, sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y plant, ac yn galluogi'r lleoliad i ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae hyn yn cynnwys ardal allanol sy'n rhoi cyfleoedd da i blant ddatblygu ystod eang o fedrau.

Mae gan y pwyllgor reolaeth ariannol effeithiol, ac maent yn gweithio'n gyson i sicrhau cyllid digonol i gynnal a chadw adnoddau'r lleoliad ac i sicrhau gwelliannau. Wrth ystyried y safonau mae'r plant yn eu cyflawni, a'r ddarpariaeth effeithiol, mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 16 | 11<br>69% | 5<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 16 | 13<br>81% | 3<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 15 | 9<br>60% | 5<br>33% | 1<br>7% | 0<br>0% | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 12 | 6<br>50% | 6<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 81% | 18% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 14 | 7<br>50% | 7<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 72% | 27% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 12 | 7<br>58% | 5<br>42% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 12 | 7<br>58% | 4<br>33% | 1<br>8% | 0<br>0% | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 7<br>44% | 8<br>50% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 16 | 11<br>69% | 5<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 11 | 6<br>55% | 5<br>45% | 0<br>0% | 0<br>0% | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 14 | 4<br>29% | 7<br>50% | 2<br>14% | 1<br>7% | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 6% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 15 | 9<br>60% | 3<br>20% | 2<br>13% | 1<br>7% | 1 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 15 | 5<br>33% | 8<br>53% | 2<br>13% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 15 | 6<br>40% | 9<br>60% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 16 | 11<br>69% | 5<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 64% | 31% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 14 | 7<br>50% | 7<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Meleri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Terwyn Tomos | Arolygydd Tîm |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |